Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**RHEOLWR RHAGLEN TRAWSNEWID**

**2 X CONTRACT TYMOR PENODOL AM 12 MIS**

**Rhif y Swydd: 505724**

**37 AWR YR WYTHNOS**

**GRADD 13: £41,511 - £42,708**

Mae cyfle wedi codi o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar gyfer dau benodiad dros dro am gyfnod penodol fel Rheolwr Rhaglen Trawsnewid. Bydd y swydd hon yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid a bydd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, i gefnogi ac ymgorffori newid a gwelliant strategol effeithiol. Lleolir y rôl o fewn yr Adran Cymorth Busnes, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX, gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer gweithio o bell, a disgwyliad y byddant yn dangos arweinyddiaeth weladwy ar draws ein gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ceisio penodi rheolwr rhaglen brwdfrydig a phrofiadol. Bydd deiliad y swydd yn un o dri rheolwr rhaglen a fydd yn gweithio'n agos gyda swyddogion gweithredol prosiectau, rheolwyr prosiect a rhanddeiliaid eraill. Byddant yn rhoi cymorth i'r Prif Swyddog Tân, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd Comisiynwyr, gan sicrhau bod blaenoriaethau a gwelliannau'n cael eu cyflawni. Byddant yn rhan annatod o'r broses i gyflawni camau gweithredu a llywodraethu ac yn goruchwylio gweithrediad yr argymhellion yn yr Adroddiad Adolygu Diwylliant a'r gweithgarwch a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Comisiynwyr.

Bydd prif ddyletswyddau'r rôl yn cynnwys cefnogi datblygiad swyddfa rheoli prosiect effeithiol a methodoleg gysylltiedig Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain y gwaith o gydlynu cyfarfodydd strwythur llywodraethu'r Gwasanaeth i sicrhau trosolwg a chraffu cadarn ar gynlluniau a chamau gweithredu ac ymgysylltu ag adrannau a rhanddeiliaid ar draws y gwasanaeth, gan ddefnyddio arbenigedd rheoli portffolio, rhaglen a phrosiect.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o gynhyrchu ystod lawn o ganlyniadau rheoli newid a rheoli gweithgareddau newid ar gyfer rhaglenni a phrosiectau cymhleth iawn. Bydd ganddynt brofiad o ddylunio a gweithredu newidiadau i fentrau prosesau, pobl a thechnoleg, gan gynnwys y gallu i asesu gwybodaeth dechnegol a phrosesu gymhleth i nodi effeithiau busnes. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus PRINCE2 neu gymhwyster rheoli prosiect cyfatebol neu brofiad cyflawni prosiect amlwg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol, gyda'r gallu i arwain ar draws disgyblaethau. Byddant yn llysgennad i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gyda'r gallu i gyfathrebu, ymgysylltu ac ysbrydoli staff ar draws y Gwasanaeth. Byddant yn rhagweithiol ac yn llawn cymhelliant gyda'r gallu i weithio'n annibynnol a chefnogi eraill i gyflawni nodau cyffredin. Bydd ganddynt y gallu i ymdopi â heriau ac amgylcheddau sy'n newid yn barhaus.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos ymrwymiad a gallu i ddatblygu unigolion, a thimau a bod yn barod hefyd i ddatblygu eu hunain o fewn y rôl. Byddant yn hyrwyddo newid a bydd ganddynt y gallu i chwilio am gyfleoedd i feithrin gwell effeithiolrwydd gwasanaethau.

Yn anad dim arall bydd ymgeiswyr yn drawsnewidiol yn eu hymagwedd ac yn dangos aliniad i God Moeseg Craidd CCPT.

**Sut i ymgeisio:**

O fewn eich cais ar-lein rydym yn gofyn i chi gwblhau'r canlynol:

1. Cyflwynwch CV (Dim mwy na thair tudalen) yn amlinellu eich gwybodaeth a'ch profiad perthnasol yn erbyn y meini prawf:

2. Dylech ddarparu ddatganiad ategol yn amlinellu'r ymatebion i'r ddau gwestiwn isod: Ni ddylai eich ymateb i'r ddau gwestiwn canlynol fod yn fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm o 1000 o eiriau)

   ***Cwestiwn 1 -*** Amlinellwch pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl hon a pha sgiliau a phrofiadau rydych chi'n teimlo sy'n eich gwneud chi'r person cywir i arwain ac ysbrydoli staff.

   ***Cwestiwn 2-*** Rhowch ddatganiad o sut rydych chi'n teimlo bod eich sgiliau, profiad, ymddygiad a gwerthoedd yn cyd-fynd â Chod Moeseg Craidd CCPT.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 ganol dydd 09 o Rhagfyr 2024.

I gael rhagor o wybodaeth am y swydd, mae croeso i chi gysylltu â'r Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid drwy law e-bost neu dimau: d-mika@decymru-tan.gov.uk

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad. Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sy wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol, a bydd angen gwiriad trwydded yrru.Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld buddion gweithio gyda ni, ewch at: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/buddion/

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi_gwag/. Os bydd angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porth, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio**.